

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2017

Annwyl Simon,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mehefin ynglŷn ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth.

Yn eich llythyr fe wnaethoch holi ynghylch argaeledd y canllaw diwygiedig ar baratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Y canllaw diwygiedig hwn yw pennod un y Llawlyfr Deddfwriaethol ar Filiau'r Cynulliad sy'n cael ei gyfieithu yn awr a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi yn yr haf. Fodd bynnag, i'ch cynorthwyo gyda'ch ymchwiliad, rwyf wedi trefnu i gopi o'r bennod berthnasol gael ei darparu i Glerc y Pwyllgor. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhannu'r ddogfen hon y tu hwnt i'r Pwyllgor cyn iddi gael ei chyhoeddi.

Fe wnaethoch ofyn hefyd am wybodaeth ynglŷn ag unrhyw adolygiadau ôl-weithredol a gynhelir ar y pedair Deddf sy'n cael eu hystyried, fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Mae gwybodaeth o'r adrannau polisi perthnasol yn yr atodiad.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a gyflwynwyd ar 28 Ionawr 2014, i rym ar 6 Ebrill 2016 ac mae bellach yn ei hail flwyddyn weithredol. Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad ffurfiol o gywirdeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil nac adolygiad ôl-weithredol cyffredinol hyd yma. Mae hyn yn cydnabod y ffaith bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi disgwyl na fyddai'r manteision yn dechrau dwyn ffrwyth tan y drydedd flwyddyn o weithredu'r Ddeddf a thu hwnt.

Fodd bynnag, cynhaliwyd gwaith ar wahân i werthuso'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r fframwaith statudol, *Y dull cydweithredol a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframwaith statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (<http://gov.wales/statistics-and-research/co-productive-approach-taken-develop-statutory-framework-social-services-well-being-act-2014/?skip=1&lang=cy>). Bydd y gwaith hwn, a gyhoeddwyd ar 11 Mai 2017, yn bwydo i'r strategaeth werthuso sy'n cael ei datblygu i asesu gweithrediad y Ddeddf ar draws nifer o feysydd gwahanol.

Cynhelir y gwerthusiad hwn o weithrediad y Ddeddf dros 3 blynedd o leiaf, a bydd yn darparu gwybodaeth ar y graddau y mae'r Ddeddf wedi llwyddo i gyflawni ei nodau. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn mae swyddogion yn paratoi'r gwaith paratoadol ar gyfer gwerthusiad annibynnol hirdymor, a fydd yn dechrau yn nhrydedd flwyddyn weithredol y Ddeddf. I baratoi ar gyfer hyn, sefydlwyd Grŵp Gwerthuso Rhanddeiliaid i hysbysu manyleb y gwerthusiad ac er mwyn ei lywio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gellir defnyddio'r gwerthusiad i ystyried cywirdeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Bil. Y bwriad yw cyhoeddi tendr ar gyfer y gwerthusiad ar ddechrau 2018, a fydd yn dilyn ymlaen o gyhoeddiad ein strategaeth werthuso ar gyfer y Ddeddf.

Deddf Tai (Cymru) 2014

Derbyniodd Deddf Tai (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2014. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth amlweddol a gynlluniwyd i helpu i weithredu tair blaenoriaeth strategol y Llywodraeth ar gyfer tai; mwy o gartrefi, cartrefi gwell a gwasanaethau gwell.

Mae Rhan 1 y Ddeddf yn datgan y gofyniad i landlordiaid y sector rhentu preifat a'u hasiantau i gael eu cofrestru a'u trwyddedu gan Rhentu Doeth Cymru. Cafodd y darn hwn o'r Ddeddf ei werthuso'n annibynnol ers ei sefydlu (gan PACEC). Un amcan allweddol yw gwerthuso'r effeithiau ar landlordiaid preifat, asiantaethau gosod tai, Awdurdodau Lleol a thenantiaid cyn ac ar ôl ei gweithredu. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2016 (gweler y ddolen isod), a disgwylir i'r adroddiad gwerthuso terfynol gael ei gyhoeddi yn yr hydref.

<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-rent-smart-wales/?skip=1&lang=cy>

Mae Rhan 2 y Ddeddf yn rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd drwy atgyfnerthu rôl atal yn y dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol i bobl ddigartref. Prifysgol Salford sy'n gyfrifol am y gwaith o werthuso'r rhan hon o'r Ddeddf ar ôl ei chyflwyno. Dechreuodd y prosiect gwerthuso yn y gwanwyn yn 2016 a bydd yn cyhoeddi adroddiad interim yn fuan i gyflwyno'r canfyddiadau cychwynnol o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid,

awdurdodau lleol ac yn dilyn y gwaith o archwilio'r data ar ddigartrefedd. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol cyn diwedd y flwyddyn ariannol a bydd hefyd yn cynnwys y canfyddiadau o gyfres o gyfweiliadau a gynhaliwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a fydd yn cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf.

Dechreuodd ail ddarn o waith ymchwil ym mis Mawrth 2017, sy'n canolbwyntio ar effaith y dyletswyddau digartrefedd ar bobl sy'n gadael y carchar. Mae'r 'Gwerthusiad o'r Gwasanaethau Digartrefedd a Ddarperir i Oedolion sy'n gadael yr Ystâd Ddiogel' yn cael ei gynnal gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Mae Rhan 3 y Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd statudol newydd i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, lle nodwyd angen heb ei gyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro cydymffurfiaeth pob awdurdod lleol gyda'r rhan o'r Ddeddf ar sail flynyddol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn annog datblygu rhagor o dai cydweithredol drwy ganiatáu i gymdeithasau tai cydweithredol cwbl gydfuddiannol ddefnyddio'r system tenantiaeth sicr i ddarparu mwy o ddiogelwch tai i'w haelodau. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill Cyf i gynnal "Gwerthusiad o ddatblygiadau tai cydweithredol yng Nghymru a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2016.

<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-co-operative-housing-developments/?skip=1&lang=cy>

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru, sy'n derbyn cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru, hefyd wedi comisiynu ymchwil i dai cydweithredol a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir. Nod y darn o waith hwn yw ymgysylltu â phobl allweddol ym mhob un o'r arloeswyr – cydweithredwyr a chynrychiolwyr sefydliadau partner – i nodi'r gwersi a ddysgwyd hyd yma a hysbysu'r broses o ddatblygu rhagor o gartrefi cydweithredol yn y dyfodol.

Yn olaf, mae'r Ddeddf yn darparu pwerau disgrisiwn i Awdurdodau Lleol yng Nghymru i godi premiwm y dreth gyngor ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi yn eu hardal o 1af Ebrill 2017. Cynhelir adolygiad ôl-weithredol yn 2018-19 yn seiliedig ar dystiolaeth o'r flwyddyn ariannol gyntaf y codwyd y premiymau hyn. Mae trefniadau ar waith i gasglu data gan awdurdodau lleol er mwyn hysbysu'r adolygiad.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

O ystyried ystod a dyfnder y newidiadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf hon, o ran llywodraethu a chyflenwi gweithgareddau'r 44 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig iddi, ac o ystyried yr amserlen a fydd yn angenrheidiol ar gyfer eu gweithredu, byddai'n rhy gynnar ac anghynhyrchiol i ddechrau asesiad cyffredinol o gywirdeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y cam hwn yng ngweithrediad y Ddeddf. Fodd bynnag, wrth i elfennau gwahanol o'r Ddeddf ddechrau cael eu gweithredu, defnyddir dull graddol o gynnal asesiad cyffredinol.

Un o'r elfennau cyntaf hyn oedd sefydlu swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'r gwaith o gwblhau'r eiddo ym mis Tachwedd 2016. Nodwyd rhai amrywiadau o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol wrth gwblhau'r gwaith hwn a bydd y rhain yn cael eu trafod fel rhan o'r adolygiad ehangach, ar ôl i elfennau allweddol eraill gyrraedd y cam lle bydd yn bosibl cynnal asesiadau defnyddiol.

Ymhlith yr elfennau eraill sy'n debygol o gael eu cynnwys yn asesiad y cam cyntaf yw datblygu a chyhoeddi amcanion Llesiant, cyhoeddi dangosyddion Cenedlaethol a chyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol.

Erbyn Ebrill 2016 roedd pob corff cyhoeddus wedi cyhoeddi eu hamcanion llesiant, rhan allweddol o'r ddyletswydd llesiant o dan Ran 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cyrff cyhoeddus yn cymryd camau yn awr i gyflawni'r amcanion hyn a bydd angen iddynt gyflwyno adroddiad ar eu cynnydd yn flynyddol. Cyhoeddir yr adroddiadau cyntaf yn 2018 a byddant yn rhoi syniad i ni o sut mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, a'r cynnydd maent yn ei wneud i gyflawni eu hamcanion a'u cyfraniad yn sgil hynny i gyflawni'r nodau llesiant. Byddwn mewn sefyllfa well bryd hynny i gynnal adolygiad yn erbyn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol, datblygodd Llywodraeth Cymru ddangosyddion cenedlaethol, ac ymgynghori arnynt, er mwyn mesur y cynnydd ar lefel Cymru o gyflawni'r saith nod llesiant yng Nghymru. Cyflwynwyd y 46 Dangosydd Cenedlaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2016 ac yn ddiweddarach eleni byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad statudol cyntaf ar gynnydd y dangosyddion cenedlaethol hyn, gan edrych ar Lesiant Cymru.

Cyhoeddwyd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym mis Mai eleni, fodd bynnag roedd y cyhoeddiad hwn yn dynodi dechrau gwaith cydweithredol ar draws yr holl gyrff cyhoeddus, i gynllunio, cynnal yn weithredol a datblygu ein gallu i ddadansoddi Tueddiadau'r Dyfodol yn barhaus. Bydd angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach cyn y gellir cynnal aseiad ystyrlon.

Deddf Cymwysterau Cymru 2015

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ym mis Awst 2015 a sefydlwyd Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru ym Medi 2015.

Mae'n ofynnol i Cymwysterau Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n esbonio sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau. Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2016. Oherwydd bod y sefydliad yn llai na dwy oed, ystyrir ei bod yn rhy gynnar i fod wedi cynnal adolygiad ôl-weithredol o effaith y Ddeddf.